

Yn berffaith rhyfedd...

Yn berffaith rhyfedd... Mae'r arddangosfa hon yn ymdrin â chelfyddyd yr artist wrth adrodd straeon a chwedlau. Hanesion sydd wedi gwreiddio'n ddwfn yn ein traddodiad Cymreig neu am fydoedd y tu hwnt i'r gorwel pell, gyda gwreiddyn o wirionedd neu'n ffrwyth dychymyg pur. Oes gennych chi stori yn corddi y tu mewn i chi? Beth am weithio drwy'r daflen weithgareddau yma i danio eich dychymyg yn berffaith rhyfedd?

Anna Ffrances - Dream



"Yr iaith Gymraeg a'i chwedloniaeth, ei hwiangerddi a'i hen benillion sy'n fy ysbrydoli." - Anna Ffrances


Amser Gweithgaredd: Lluniau o'ch breuddwydion

Tarweh olwg ar y darlun uwchben. Y teitl yw 'Breuddwyd' gan Anna Frances.

Mae'n defnyddio cyfryngau cymysg i ddarlunio ei straeon.

Mae ei defnydd o liw yn freuddwydiol ac yn niwlog. Beth mae'r cymeriadau'n ei gynrychioli yn eich barn chi? Pa fath o freuddwyd sydd yma? Ydych chi erioed wedi cael breuddwyd od a rhyfeddol? Efallai eich bod yn hedfan drwy'r awyr neu'n nofio'n ddwfn yn y môr.

Estynnwch ddarn o bapur a thynnu llun o'ch breuddwyd. Arbrowfwech gyda'r defnydd o liw a phatrymau gan ddod â'r stori'n fyw!



Lluniau o'ch breuddwydion

Adrodd Straeon a Cherddi



Dod at fy Nghoed
by Ruth Jên Evans

Amser Gweithgaredd: Fy nghreadur

Pan fyddwch chi'n meddwl am stori, mae'n siŵr eich bod yn gweld geiriau wedi'u hysgrifennu'n gelfydd ar dudalen mewn llyfr. Ond mae Ruth yn mynd â dawn y storiwr ymhellach drwy ddefnyddio creaduriaid rhyfeddol i bortreadu stori weledol - wedi'i hysbrydoli gan y Mabinogi yn aml.

Mae sawl ffordd o adrodd stori - mae rhai artistiaid yn defnyddio cerddi, eraill yn defnyddio geiriau, ond mae Ruth yn defnyddio lluniau. Allwch chi ddychmygu creadur gwyllt a gwallgof? Gall fod yn fawr fel cawr neu'n fach ac yn swil.

Oes gan eich creadur chi glustiau blewog a phig hir, main? Oes gan eich creadur chi adenydd disglair a choesau mawr cryf?

Estynnwch eich pensiliau lliw a thynnu llun o greadur sy'n berffaith rhyfedd...
Dewch â'r creadur yn fyw drwy ysgrifennu cerdd fach amdano!

Adrodd Straeon a Cherdditry

Fy nghreadur

Fy ngherdd



Deunyddiau sy'n Newid Siâp



Winged Musing- Fiona Morley

"If thoughts were conjured into form this winged creature would be one of them." - Fiona Morley

Amser Gweithgaredd: Y Llinell nad yw'r Darfod

Mae darluniau yn rhan bwysig iawn o broses Fiona gan helpu ei cherfluniau i chwarae eu rhan yn y byd. Edrychwch yn ofalus ar y cerflun... Dilynwch linell y weiren sy'n troi a throsi gan ddod â'r siâp chwedlonol yn fyw. Drwy gelf fel hyn, mae Fiona yn arddangos thema allweddol mewn Chwedloniaeth, sef y cysylltiad rhwng pethau ym myd natur...

Mae gwaith Fiona yn seiliedig ar greaduriaid a oedd yn ôl pob sôn yn gallu newid eu hymddangosiad i fod yn geffylau, geifr, cathod, cŵn a sgwarnogod. Gallant hefyd ymddangos ar ffurf bodau dynol gyda nodweddion anifeiliaid.

Estynnwch feiro neu bin ffelt ac arbrowch gyda llinell ddi-dor i greu ffurfiau ac elfennau sy'n newid siâp. Ar ôl i flaen y pen gyffwrdd â'r papur peidiwch â'i dynnu i ffwrdd! Gwyliwch sut mae'r llinellau inc yn trawsnewid i greu marciau sy'n berffaith rhyfedd.

